OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2478 (Cy.270)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer taliadau am wasanaethau a threuliau swyddogion canlyniadau mewn cysylltiad â chynnal etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011 (O.S. 2011/632) (Cy.92)) ("Gorchymyn 2011"). Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236). Mae erthygl 23 yn darparu bod hawl gan swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol i adennill taliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd neu dreuliau a dynnwyd mewn cysylltiad ag etholiad Cynulliad.

Mae erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthyglau 4, 5(1), 6(1), 7, 8(1) a 9(1) o Orchymyn 2011 drwy ddileu'r cyfeiriadau at y Refferendwm Pleidlais Amgen. Fel y'i diwygiwyd, mae erthygl 4 o Orchymyn 2011 yn pennu mai'r cyfanswm cyffredinol mwyaf y mae modd ei adennill ar gyfer etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 1. Fel y'i diwygiwyd, mae erthygl 5 o Orchymyn 2011 yn pennu mai'r cyfanswm mwyaf y mae modd ei adennill am wasanaethau mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 1. Fel y'i diwygiwyd, mae erthygl 6 o Orchymyn 2011 yn pennu mai'r cyfanswm mwyaf y mae modd ei adennill am dreuliau mewn etholiad

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 2478 (W.270)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Amendment) Order 2012

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for payments for services and expenses of returning officers in connection with the conduct of National Assembly for Wales elections.

This Order amends The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2011 (S.I. 2011/632) (W.92)) ("the 2011 Order"). This Order is made under article 23 of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 (S.I. 2007/236). Article 23 provides that a constituency or a regional returning officer is entitled to recover charges in respect of services rendered or expenses incurred in connection with an Assembly election.

Article 3(2) of this Order amends articles 4, 5(1), 6(1), 7, 8(1) and 9(1) of the 2011 Order by removing references to the Alternative Vote Referendum. As amended, article 4 of the 2011 Order specifies the overall maximum recoverable amount for a contested Assembly constituency election as shown in column 4 of the table in Schedule 1. As amended, article 5 of the 2011 Order specifies the maximum recoverable amount for services at a contested Assembly constituency election as shown in column 2 of the table in Schedule 1. As amended, article 6 of the 2011 Order specifies the maximum recoverable amount for expenses at a contested Assembly constituency election as shown in column 3 of the table in Schedule 1. As amended, article 7 of the 2011 Order specifies the

etholaeth Cynulliad a ymleddir yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 1. Fel y'i diwygiwyd, mae erthygl 7 o Orchymyn 2011 yn pennu mai'r cyfanswm cyffredinol mwyaf y mae modd ei adennill ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 2. Fel y'i diwygiwyd, mae erthygl 8 o Orchymyn 2011 yn pennu mai'r cyfanswm mwyaf y mae modd ei adennill am wasanaethau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2 ac mae erthygl 9, fel y'i diwygiwyd, yn pennu mai'r cyfanswm mwyaf y mae modd ei adennill am dreuliau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2. (Mae erthygl 3(2) hefyd yn dileu'r cyfeiriadau at y Refferendwm Pleidlais Amgen o benawdau erthyglau 5, 6, 8 a 9 o Orchymyn 2011 ac Atodlen 2 iddo).

Mae erthygl 3(3) yn amnewid Atodlen 1 i Orchymyn 2011. Mae'r tabl yn Atodlen 1 sydd wedi'i hamnewid yn disgrifio'r cyfanswm cyffredinol mwyaf a'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau ac am dreuliau y caiff swyddog canlyniadau etholaeth eu hadennill ar gyfer etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ymleddir neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath.

overall maximum recoverable amount for a contested Assembly regional election as shown in column 4 of the table in Schedule 2. As amended, article 8 of the 2011 Order specifies the maximum recoverable amount for services at a contested Assembly regional election as shown in column 2 of the table in Schedule 2 and article 9, as amended, specifies the maximum recoverable amount for expenses at a contested Assembly regional election as shown in column 3 of the table in Schedule 2. (Article 3(2) also removes references to the Alternative Vote Referendum from the headings to articles 5, 6, 8 and 9 of, and Schedule 2 to, the 2011 Order).

Article 3(3) substitutes Schedule 1 to the 2011 Order. The table contained at substituted Schedule 1 describes the overall maximum recoverable amount and the maximum recoverable amounts for services and expenses by a constituency returning officer for, or in connection with, a contested election to the National Assembly for Wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2478 (Cy.270)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn—

(a) mae "etholaeth Cynulliad" ("*Assembly constituency*") i'w dehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(b) mae "rhanbarth etholiadol Cynulliad" ("*Assembly electoral region*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**1**) O.S. 2007/236.

(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 2478 (W.270)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Amendment) Order 2012

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 September 2012* |
| *Coming into force* | *1 October 2012* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by article 23 of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007(**1**) and now vested in them(**2**), make the following Order—

**Title, application and commencement**

1.—(1) The title of this Order is the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Amendment) Order 2012.

(2) This Order comes into force on 1 October 2012.

(3) This Order applies in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In this Order—

(a) "Assembly constituency" ("*etholaeth Cynulliad*") is to be construed in accordance with section 2 of the Government of Wales Act 2006;

(b) "Assembly electoral region" ("*rhanbarth etholiadol Cynulliad*") is to be construed in accordance with section 2 of the Government of Wales Act 2006.

(**1**) S.I. 2007/236.

(**2**) By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32) the powers of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers.

**Diwygiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011**

**3**.—(1) Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthyglau 4, 5(1), 6(1), 7, 8(1) a 9(1) ac ym mhenawdau erthyglau 5, 6, 8 a 9 ac Atodlen 2, hepgorer y geiriau "ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen".

(3) Yn lle Atodlen 1, rhodder yr Atodlen a ganlyn—

**Amendments to the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2011**

**3**.—(1) The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Wales) Order 2011 is amended as follows.

(2) In articles 4, 5(1), 6(1), 7, 8(1) and 9(1) and in the headings to articles 5, 6, 8 and 9 and Schedule 2, omit the words "held on the same day as the Alternative Vote Referendum".

(3) For Schedule 1, substitute the following Schedule—

## "ATODLEN 1

Erthyglau 4, 5(1) a 6(1)

### Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy a'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau ac am dreuliau sy'n adenilladwy mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir

| 1) Etholaeth | 2) Cyfanswm adenilladwy mwyaf am wasanaethau | 3) Cyfanswm adenilladwy mwyaf am dreuliau | 4) Cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy |
|---|---|---|---|
| Aberafan | **£4,730** | **£151,170** | **£155,900** |
| Aberconwy | **£4,730** | **£105,358** | **£110,088** |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | **£4,730** | **£124,358** | **£129,088** |
| Arfon | **£4,730** | **£107,069** | **£111,799** |
| Blaenau Gwent | **£4,730** | **£161,967** | **£166,697** |
| Bro Morgannwg | **£4,730** | **£192,425** | **£197,155** |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | **£4,730** | **£177,443** | **£182,173** |
| Caerffili | **£4,730** | **£160,424** | **£165,154** |
| Canol Caerdydd | **£4,730** | **£132,301** | **£137,031** |
| Castell-nedd | **£4,730** | **£169,780** | **£174,510** |
| Ceredigion | **£4,730** | **£153,514** | **£158,244** |
| Cwm Cynon | **£4,730** | **£121,686** | **£126,416** |
| De Caerdydd a Phenarth | **£4,730** | **£183,660** | **£188,390** |
| De Clwyd | **£4,730** | **£146,245** | **£150,975** |
| Delyn | **£4,730** | **£129,994** | **£134,724** |
| Dwyfor Meirionnydd | **£4,730** | **£152,209** | **£156,939** |
| Dwyrain Abertawe | **£4,730** | **£142,418** | **£147,148** |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | **£4,730** | **£177,265** | **£181,995** |
| Dwyrain Casnewydd | **£4,730** | **£130,047** | **£134,777** |
| Dyffryn Clwyd | **£4,730** | **£117,780** | **£122,510** |
| Gogledd Caerdydd | **£4,730** | **£165,133** | **£169,863** |
| Gorllewin Abertawe | **£4,730** | **£136,341** | **£141,071** |
| Gorllewin Caerdydd | **£4,730** | **£151,200** | **£155,930** |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | **£4,730** | **£161,498** | **£166,228** |
| Gorllewin Casnewydd | **£4,730** | **£149,302** | **£154,032** |
| Gorllewin Clwyd | **£4,730** | **£139,326** | **£144,056** |
| Gŵyr | **£4,730** | **£148,616** | **£153,346** |
| Islwyn | **£4,730** | **£140,055** | **£144,785** |
| Llanelli | **£4,730** | **£162,368** | **£167,098** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful a Rhymni | **£4,730** | **£156,183** | **£160,913** |
| Mynwy | **£4,730** | **£184,172** | **£188,902** |
| Ogwr | **£4,730** | **£126,506** | **£131,236** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | **£4,730** | **£131,194** | **£135,924** |
| Pontypridd | **£4,730** | **£141,313** | **£152,043** |
| Preseli Sir Benfro | **£4,730** | **£161,432** | **£166,162** |
| Rhondda | **£4,730** | **£138,009** | **£142,739** |
| Sir Drefaldwyn | **£4,730** | **£131,837** | **£136,567** |
| Torfaen | **£4,730** | **£163,376** | **£168,106** |
| Wrecsam | **£4,730** | **£109,924** | **£114,654** |
| Ynys Môn | **£4,730** | **£139,547** | **£144,277** |
| | | | |
| Cyfanswm | **£189,200** | **£5,880,445** | **£6,069,645 "** |

"SCHEDULE 1

Articles 4, 5(1) and 6(1)

Overall maximum recoverable amount and maximum recoverable amounts for services and expenses at a contested Assembly constituency election

| 1) Constituency | 2) Maximum recoverable amount for services | 3) Maximum recoverable amount for expenses | 4) Overall maximum recoverable amount |
|---|---|---|---|
| Aberavon | **£4,730** | **£151,170** | **£155,900** |
| Aberconwy | **£4,730** | **£105,358** | **£110,088** |
| Alyn and Deeside | **£4,730** | **£124,358** | **£129,088** |
| Arfon | **£4,730** | **£107,069** | **£111,799** |
| Blaenau Gwent | **£4,730** | **£161,967** | **£166,697** |
| Brecon and Radnorshire | **£4,730** | **£177,443** | **£182,173** |
| Bridgend | **£4,730** | **£131,194** | **£135,924** |
| Caerphilly | **£4,730** | **£160,424** | **£165,154** |
| Cardiff Central | **£4,730** | **£132,301** | **£137,031** |
| Cardiff North | **£4,730** | **£165,133** | **£169,863** |
| Cardiff South and Penarth | **£4,730** | **£183,660** | **£188,390** |
| Cardiff West | **£4,730** | **£151,200** | **£155,930** |
| Carmarthen East and Dinefwr | **£4,730** | **£177,265** | **£181,995** |
| Carmarthen West and South Pembrokeshire | **£4,730** | **£161,498** | **£166,228** |
| Ceredigion | **£4,730** | **£153,514** | **£158,244** |
| Clwyd South | **£4,730** | **£146,245** | **£150,975** |
| Clwyd West | **£4,730** | **£139,326** | **£144,056** |
| Cynon Valley | **£4,730** | **£121,686** | **£126,416** |
| Delyn | **£4,730** | **£129,994** | **£134,724** |
| Dwyfor Meirionnydd | **£4,730** | **£152,209** | **£156,939** |
| Gower | **£4,730** | **£148,616** | **£153,346** |
| Islwyn | **£4,730** | **£140,055** | **£144,785** |
| Llanelli | **£4,730** | **£162,368** | **£167,098** |
| Merthyr Tydfil and Rhymney | **£4,730** | **£156,183** | **£160,913** |
| Monmouth | **£4,730** | **£184,172** | **£188,902** |
| Montgomeryshire | **£4,730** | **£131,837** | **£136,567** |
| Neath | **£4,730** | **£169,780** | **£174,510** |
| Newport East | **£4,730** | **£130,047** | **£134,777** |
| Newport West | **£4,730** | **£149,302** | **£154,032** |
| Ogmore | **£4,730** | **£126,506** | **£131,236** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pontypridd | **£4,730** | **£141,313** | **£152,043** |
| Preseli Pembrokeshire | **£4,730** | **£161,432** | **£166,162** |
| Rhondda | **£4,730** | **£138,009** | **£142,739** |
| Swansea East | **£4,730** | **£142,418** | **£147,148** |
| Swansea West | **£4,730** | **£136,341** | **£141,071** |
| Torfaen | **£4,730** | **£163,376** | **£168,106** |
| Vale of Clwyd | **£4,730** | **£117,780** | **£122,510** |
| Vale of Glamorgan | **£4,730** | **£192,425** | **£197,155** |
| Wrexham | **£4,730** | **£109,924** | **£114,654** |
| Ynys Mon | **£4,730** | **£139,547** | **£144,277** |
| | | | |
| Total | **£189,200** | **£5,880,445** | **£6,069,645 "** |

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

25 Medi 2012

Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers

25 September 2012

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2478 (Cy.270)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2012 No. 2478 (W.270)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Amendment) Order 2012

£5.75

W1412/10/12 ON